

## Cynhadledd Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) 2019:

Profiad cynhwysol i fyfyrwyr ag anableddau mewn addysg uwch?

### Gwybodaeth ddefnyddiol

#### Cyfeiriad y lleoliad

Y Neuadd Fawr  
Campws y Bae Prifysgol, Abertawe,  
Ffordd Fabian,  
Twyni Crymlyn,  
Abertawe,  
SA1 8EN,  
Cymru, DU

[Lawrlwytho Map o Gampws y Bae](#)

#### Cyfarwyddiadau:

##### Gyrru

Wrth deithio tua'r gorllewin ar yr M4, gadewch y draffordd ar Gyffordd 42 a dilynwch yr arwyddion ar gyfer Abertawe ar yr A483 (Ffordd Fabian). Lleolir Campws y Bae ar ochr chwith Ffordd Fabian a rheolir y brif fynedfa gan oleuadau traffig.

##### Parcio

**Mae parcio hygyrch** ar gael o amgylch y Neuadd Fawr a gellir trefnu parcio drwy e-bostio [cynwysoldeb@abertawe.ac.uk](mailto:cynwysoldeb@abertawe.ac.uk).

**Lleolir cyfleuster Parcio a Theithio** ar Ffordd Fabian, sy'n agos iawn i Gampws y Bae. Mae'r safle ar agor o 6.45am tan 7.30pm. Mae'n costio £4.00 y car, y diwrnod.

Sylwer y bydd parcio mewn lleoliadau anawdurdodedig ar Gampws y Bae yn arwain at gyhoeddi hysbysiad o dâl cosb.

##### Tacsis

Gellir trefnu gollwng pobl y tu allan i'r Neuadd Fawr gyda'r cwmni tacsi pan fyddwch yn archebu tacsi.

## Ar y Trên

Ceir trêrn cyflym InterCity bob awr o Lundain (Paddington) i Abertawe. Mae'n cymryd oddeutu 2 awr 50 munud. Mae'r prif wasanaethau InterCity'n cynnwys cysylltiadau i Abertawe o Firmingham, Bryste Parkway, Caerdydd, a Llundain. Mae gwasanaethau rhanbarthol hefyd, yn defnyddio trenau Sprinter, i orllewin Cymru, canolbarth Cymru a gogledd Cymru. Yr orsaf drenau agosaf i Gampws y Bae yw Gorsaf Drenau Abertawe, sydd oddeutu 3.3 milltir o'r campws.

Am fanylion llawn y gwasanaethau rheilffordd:

- Ewch i [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk)
- Rhif ffôn: +44 (0)3457 484950

O Orsaf Drenau Abertawe, gallwch gymryd tacsï neu fws i Gampws y Bae:

- Mae safle tacsï y tu allan i'r orsaf hefyd. Mae'r amser teithio i Gampws y Bae oddeutu 10 munud ac mae'n costio tua £8 (taith unffordd).

Cwmnïoedd tacsï:

Data Cabs – 01792 545454

Yellow Cabs – 01792 644446

- Mae'r gwasanaeth bysus yn mynd heibio Gorsaf Drenau Abertawe. Mae'r amser teithio i Gampws y Bae oddeutu 30 munud ac mae'n costio £4 (taith unffordd). Cynlluniwch eich taith ar fws drwy ddefnyddio [www.cymraeg.traveline.cymru](http://www.cymraeg.traveline.cymru)

## Ar Fws

Mae bysus o Gampws y Bae yn teithio'n aml rhwng canol dinas Abertawe a Champws Parc Singleton. Mae'r holl fws yn hygyrch ac mae ymylon palmant wedi'u codi yn y cilfannau bws.

Cynlluniwch eich taith ar fws drwy ddefnyddio [www.cymraeg.traveline.cymru](http://www.cymraeg.traveline.cymru).

Ar gyfer amserlenni a gwybodaeth bellach, ewch i: [www.firstgroup.com](http://www.firstgroup.com)

## Beicio a Cherdded

Mae'r Llwybr Beicio Cenedlaethol (Llwybr 4) yn cysylltu Campws Parc Singleton â Champws y Bae. Mae cyfleusterau parcio beic ar y ddau safle. Os ydych yn teithio'n lleol, neu'n beicio o orsafoedd trenau Abertawe neu Bort Talbot, gallwch weld rhwydwaith beicio Bae Abertawe yma: [www.cycleswanseabay.org.uk](http://www.cycleswanseabay.org.uk)

## Beiciau Santander

Beiciau Santander Abertawe yw cynllun rhannu beiciau y gall pawb ei ddefnyddio. Mae 5 man casglu/gadael beiciau ar hyd Bae Abertawe, gan gysylltu'r ddau gampws. Am wybodaeth bellach, lawrlwythwch yr Ap Santander Cycles o'r App Store.

## Hedfan

### O Faes Awyr Heathrow:

**Trên:** Gallwch naill ai gymryd y bws cyswllt Rheilffordd-Awyr i Reading a'r trê'n o Reading i Abertawe, neu'r trê'n o Heathrow i Lundain (Paddington), a'r trê'n o Paddington i Abertawe.

**Bws:** Cymerwch fws 201 o orsaf fysiau'r maes awyr i Abertawe.

### O Faes Awyr Gatwick:

**Trên:** Cymerwch y trê'n o Gatwick i Reading, a'r trê'n o Reading i Abertawe.

**Bws:** Cymerwch fws 201 neu 202 o orsaf fysiau'r maes awyr i Abertawe.


**O Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd:** Cymerwch fws neu dacsî i ganol Caerdydd ac yna cymerwch y cysylltiad trê'n i Abertawe.

## Y Lleoliad

Os oes gennych chi anghenion mynediad, a wnewch chi hysbysu SAILS drwy e-bostio [cynwysoldeb@abertawe.ac.uk](mailto:cynwysoldeb@abertawe.ac.uk)

- Mae pob ystafell gynadledda yn y Neuadd Fawr ar y llawr gwaelod ac maent yn hygyrch.
- Gellir cynnal gweithdai unigol yn Adeilad yr Ysgol Reolaeth, sydd gerllaw'r Neuadd Fawr. Mae'r lloriau uwch i gyd yn hygyrch drwy lifft.
- Mae toiledau hygyrch, sy'n niwtral o ran rhywedd, ar gael.
- Nodir lleoliadau'r Neuadd Fawr ac adeilad yr Ysgol Reolaeth ar fap y campws isod.

[Lawrlwytho Map o Gampws y Bae.](#)



## Arlwyo

Rydym yn gallu diwallu anghenion deietegol arbennig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ffordd y caiff ein bwyd ei baratoi, nid yw'n bosib gwarantu na fydd allergenau yn ein cynnyrch.

- Darperir cinio. Bydd te a choffi ar gael wrth gofrestru a chanol bore.
- Darperir opsiynau llysfwytäol a chânt eu labeli'n glir.
- Darperir opsiynau llysfwytäol, halal ac opsiynau eraill o ganlyniad i alergeddau ac anioddefiadau ar gais. E-bostiwch [cynwysoldeb@abertawe.ac.uk](mailto:cynwysoldeb@abertawe.ac.uk) erbyn **dydd Gwener 12 Ebrill 2019**.
- Mae ffynhonnau dŵr ar gael yng nghoridorau'r Neuadd Fawr.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â SAILS drwy e-bostio [cynwysoldeb@abertawe.ac.uk](mailto:cynwysoldeb@abertawe.ac.uk).

Gwefan SAILS: [www.swansea.ac.uk/inclusivity-academy](http://www.swansea.ac.uk/inclusivity-academy)